**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

09 Rhagfyr 2021

Annwyl Weinidog,

Cynigion i wahardd eitemau plastig untro

Yn dilyn ymlaen o'n *Hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd* (Medi 2021), byddem yn croesawu diweddariad gennych ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran datblygu cynigion i wahardd eitemau plastig untro.

Yn eich ymateb i'n hadroddiad, dywedwyd wrthym fod trafodaethau rhynglywodraethol yn parhau mewn perthynas ag effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ar gwmpas y gwaharddiad arfaethedig yng Nghymru. Gwnaethoch nodi'ch bwriad i gyhoeddi manylion y camau nesaf tuag at waharddiad erbyn diwedd mis Hydref 2021. Nid yw'r rhain ar gael eto.

Nodwn fod Llywodraeth yr Alban wedi gwneud *Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Yr Alban) 2021* yn ddiweddar, a byddant yn dod i rym ym mis Mehefin 2022. Yn ogystal, mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynigion i wahardd ystod o blastigau untro a ffynonellau llygredd plastig eraill yn Lloegr, ar ôl cyflwyno gwaharddiad eisoes ar wellt, troellwyr a ffyn cotwm plastig.

O ystyried bod cynnydd yn cael ei wneud o ran gwaharddiad yng ngwledydd eraill y DU, nid yw'n glir pam yr ymddengys nad oes cynnydd pellach yn cael ei wneud yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech fynd i'r afael â'r mater hwn yn eich ymateb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn dydd Mawrth 4 Ionawr 2022, fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English